



**Y Coleg
Merthyr Tudful
The College
Merthyr Tydfil**

Cynllun Strategol 2020-2023

Ein gweledigaeth

Erbyn 2023:

*Byddwn yn ganolfan ragoriaeth sy'n gwneud **gwahaniaeth gwirioneddol** i fywydau dysgwyr, gan godi dyheadau a datblygu ffyniant a lles y **cymunedau** rydym yn eu gwasanaethu.*

*Bydd ein cwricwlwm a'n cyfleusterau o'r radd flaenaf yn **ysbrydoli** rhanddeiliaid, gan ddarparu dysgu o ansawdd uchel ar gyfer cyflogaeth ac addysg uwch yn y dyfodol. I bobl ifanc, oedolion, cyflogwyr a phartneriaid ehangach, Y Coleg Merthyr Tudful fydd y '**coleg o ddewis**'.*



Nodau strategol



1

Byddwn yn darparu profiad dysgu rhagorol drwy roi ein dysgwyr wrth radd popeth a wnawn.

2

Byddwn yn cynnig cwricwlwm arloesol ac ymatebol sy'n cefnogi pob dysgwr i symud ymlaen i'w llwybr gyrfa dewisol.

3

Bydd ein dysgwyr a'n staff yn mwynhau amgylchedd coleg diogel, cefnogol a chynhwysol.

4

Byddwn yn cydweithio ar draws ein rhanbarth i ddarparu rhaglenni sgiliau a hyfforddiant ysbrydoledig ac effeithiol sy'n hyrwyddo dysgu gydol oes, yn cefnogi twf economaidd ac yn diwallu anghenion rhanddeiliad.

5

Byddwn yn darparu strategaethau Ariannol, Adnoddau Dynol ac Ystadau effeithiol i wneud y mwyaf o gynaliadwyedd a gwydnwch, gan gefnogi buddsoddiad yn y coleg yn y dyfodol fel amgylchedd dysgu a gweithio o'r radd flaenaf i bawb.

Ein gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd

Mae ein gweledigaeth

yn adlewyrchu ein pwrpas a'n dyhead

Byddwn yn ganolfan ragoriaeth sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau dysgwyr, gan godi dyheadau a datblygu ffyniant a lles y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Bydd ein cwricwlwm a'n cyfleusterau o'r radd flaenaf yn ysbrydoli rhanddeiliaid, gan ddarparu dysgu o safon ar gyfer cyflogadwyedd ac addysg lefel uwch i bobl ifanc, oedolion, cyflogwyr a phartneriaid ehangach.

Bydd y Coleg Merthyr Tudful yn
Goleg Dethol

Ein Gwerthoedd

Y sail i'n hymddygiadau

Proffesiynol

Ysbrydoledig

Ymatebol

Cefnogol

Ein cenhadaeth

Trawsnewid Bywydau Drwy
Gydweithio

EIN BLAENORIAETHAU STRATEGOL

Profiad Dysgu Rhagorol.

Cwricwlwm Arloesol ac Ymatebol.

Amgylchedd Diogel a Cefnogol.

Partneriaethau Effeithiol.

Yn Ariannol Gryf a Blaengar

Blaenoriaeth Strategol 1: Byddwn yn darparu profiad dysgu rhagorol drwy roi ein dysgwyr wrth wraidd popeth a wnawn.

Yn ystod 2021-2023, bydd y coleg yn cael ei gydnabod fel y coleg sy'n perfformio orau yng Nghymru, gan ddarparu profiad dysgu rhagorol i bawb. Bydd ein cwricwlwm arloesol ac ymatebol, ynghyd â'n darpariaeth addysgu o'r ansawdd uchaf a phrofiad dysgu rhagorol, yn ein gwneud yn ddewis rhif un i ddysgwyr, rhieni a chyflogwyr.

Ein prif amcanion i gefnogi'r flaenoriaeth hon fydd

- Cyflawni gwelliant o flwyddyn i flwyddyn mewn deilliannau dangos yn glir y pellter a deithiwyd a'r cynnydd a wnaed ran dysgu
- Ymgysylltu â'n partneriaid i hyrwyddo a darparu cyngor ac arweiniad diduedd o ansawdd uchel i sicrhau bod dysgwyr yn barod i symud ymlaen i'r coleg ac yn cael eu rhoi ar raglen astudio briodol a pherthnasol
- Sicrhau cydnabyddiaeth allanol am ansawdd ein darpariaeth addysgu, yr amgylchedd digidol a phrofiad dysgwyr.
- Meithrin amgylchedd o ddatblygiad proffesiynol parhaus a gwelliant mewn dysgu ac addysgu gyda staff sydd â'r grym i arloesi a chydweithio i wella ansawdd addysgu a dysgu.
- Byddwn yn enwog am hyrwyddo ac ymgorffori diwylliant o rannu arfer da, gan ganolbwyntio ar arfer addysgeg arloesol, gan gynnwys defnyddio technolegau newydd a digidol.
- Darparu amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr lunio a dylanwadu ar ansawdd eu profiad dysgu.



Caiff ein llwyddiant ei fesur gan:

- 90% o ganlyniadau cyfradd llwyddiant galwedigaethol
- 90% Boddhad Dysgwyr
- Presenoldeb Dysgwyr 90%
- Dilyniant o 90% o ysgolion lleol Merthyr Tudful
- Recriwtio 100% i darged amser llawn
- Cyfradd cwblhau o 95%
- Gwelliant o flwyddyn i flwyddyn yng nghanran y dysgwyr sy'n ailsefyll sy'n cyflawni Gradd C mewn TGAU Saesneg Iaith a TGAU Mathemateg
- 4% Cyfradd gadael y dysgwr
- 92% o'r addysgu a'r dysgu a raddiwyd yn rhagorol neu'n dda
- Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y dysgwyr sy'n cyflawni graddau uchel
- AIPS Dangosydd ansawdd 3
- Gwelliant o flwyddyn i flwyddyn o ran cadw dysgwyr o flwyddyn 1 i flwyddyn 2
- 100% Staff wedi'u hyfforddi mewn OTP, CTP neu SOLE
- Cydnabyddiaeth allanol drwy TES, PRTA Microsoft Educator, Statws Ysgol Arddangos Microsoft a Gwobrau NACE

Blaenoriaeth Strategol 2: Byddwn yn cynnig cwricwlwm arloesol ac ymatebol sy'n cefnogi pob dysgwr i symud ymlaen i'w llwybr gyrfa ddewisol.

Yn 2020-2023, bydd y coleg yn adeiladu ar ei gwricwlwm ac yn ei wella, gan sefydlu meysydd o lwyddiant eithriadol, cryfhau meysydd pwnc craidd a chyflwyno meysydd cwricwlwm newydd. Byddwn yn ymateb i'r galw gan ysgolion a chyflogwyr lleol, a rhanddeiliaid allweddol ochr yn ochr â chyfleoedd sy'n deillio o flaenoriaethau sgiliau rhanbarthol a deddfwriaeth y Llywodraeth.

Caiff ein llwyddiant ei fesur gan:

- 60 o ddysgwyr Safon Uwch bob blwyddyn o'r tu allan i Ferthyr Tudful
- Cynnydd flynyddol yn nifer y dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn cystadlaethau Sgiliau
- Dilyniant o 85% i ddysgu uwch neu gyflogaeth
- Recriwtio 97.5% i feysydd Blaenoriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Recriwtio 97.5% i'n targed rhan-amser
- 100% o staff yn ymgysylltu â'n rhaglen Hyfforddiant Digidol
- Cynnydd blynyddol yn y gyfradd cyfranogiad dysgwyr mewn gweithgareddau cyfoethogi.
- Ymgysylltiad dysgwyr o 100% yn y 'rhaglen gyflogadwyedd'
- Cynnydd blynyddol yn nifer y staff sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad iaith Gymraeg Cynnydd blynyddol yn nifer y dysgwyr sy'n cwblhau elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg

Bydd ein prif amcanion i gefnogi'r flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- Cwricwlwm sy'n arloesol, yn ysbrydoledig, yn berthnasol ac yn ymatebol, gan ganolbwyntio ar gyrsiau a chyfleoedd sy'n atebol i'r galw, sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr, ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Bydd ein profiad o ddarparu dysgu ar-lein a dysgu cyfunol yn ystod 2020-2021 yn cael ei ddefnyddio i lunio a dylanwadu ar ein darpariaeth cwricwlwm o 2021 ymlaen, gan alluogi'r coleg i agor y ddarpariaeth i farchnadoedd a dulliau cyflwyno newydd.
- Bydd ein cwricwlwm yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i ddysgwyr a fydd yn gwella eu dilyniant i brifysgol, cyflogaeth neu ddysgu pellach ar lefel uwch.
- Defnyddir data LMI a Sgiliau Rhanbarthol i gefnogi'n rhagweithiol y gwaith o ddatblygu cwricwlwm technoleg gynaliadwy a gwyrdd newydd, gan ganolbwyntio ar feysydd fel cynnal a chadw, ôl-ffit, hybrid a thrydanol.
- Bydd rhaglen cyflogadwyedd y coleg yn sicrhau bod gan bob dysgwr y sgiliau i symud ymlaen yn llwyddiannus i gyflogaeth neu ddysgu pellach.
- Bydd sgiliau Llythrennedd Digidol, cyflogadwyedd ac entrepreneuriaid yn cael eu datblygu a'u hymgorffori ar draws y cwricwlwm drwy Raglenni Tiwtorial a Chyflogadwyedd y coleg.
- Byddwn yn ehangu'r ddarpariaeth ran-amser i ddiwallu anghenion lleol a rhanbarthol.
- Bydd ein portffolio addysg uwch yn cynnwys amrywiaeth o gymwysterau a llwybrau ar lefel prifysgol i bob dysgwr.
- Byddwn yn sicrhau bod yr holl staff mewn sefyllfa dda i gyflwyno cwricwlwm a sgiliau'r dyfodol.
- Byddwn yn hyrwyddo iaith a Strategaeth Gymraeg gynhwysfawr i hyrwyddo a datblygu dwyieithrwydd ar draws y coleg.



Blaenoriaeth Strategol 3: Bydd ein dysgwyr a'n staff yn mwynhau amgylchedd coleg diogel, cefnogol a chynhwysol.

Mae ein Strategaeth Iechyd a Lles yn amlinellu ein hymrwymiad i ddarparu amgylchedd dysgu a gwaith cynhwysol sy'n cefnogi amrywiaeth, cydweithio a lles i bawb.

Ein *prif amcanion* i gefnogi'r flaenoriaeth hon:

- Bydd dysgwyr a staff yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi fel unigolion drwy gyfathrebu clir a diwylliant gwranddo a hyfforddi.
- Bydd Hwb Lles y coleg a gwasanaethau cymorth ar-lein yn darparu cymorth, cyngor ac arweiniad iechyd meddwl a lles i bob dysgwr a staff.
- Bydd dysgwyr a staff yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu gwydnwch personol.
- Byddwn yn gweithredu seilwaith a dull cynhwysfawr o ddiogelu ac atal.
- Byddwn yn meithrin amgylchedd dysgu a gwaith sy'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn, cynhwysiant, cydweithio a balchder drwy roi cyfle i bob dysgwr a staff gyfrannu eu barn a'u syniadau at strategaethau, polisiau a bywyd gwaith bob dydd y coleg.
- Bydd ein strategaeth Iechyd Meddwl, Lles a Chyfoethogi yn sicrhau bod gan bob dysgwr a staff fynediad at ganllawiau, gweithgareddau, cymorth a hyfforddiant priodol i helpu i reoli cydbwysedd rhwng gwaith/astudio a bywyd.
- Bydd y coleg yn cael cydnabyddiaeth allanol am ei gefnogaeth i iechyd meddwl a lles dysgwyr a staff.



Caiff ein llwyddiant ei fesur gan:

- 100% o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel o fewn eu hamgylchedd dysgu yn y coleg neu gartref
- 95% o ddysgwyr yn hapus gyda lefel y cymorth a gânt yn y coleg
- Mae cyfraddau llwyddiant dysgwyr a gefnogir drwy LCA a Grant Dysgu'r Cynulliad, ADY, YiG a CLA yn hafal i gyfraddau llwyddiant pob dysgwr neu'n uwch na hynny
- Mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch staff yn llai na chymaryddion cenedlaethol neu'n hafal iddynt.
- Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y staff a'r dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi, cymorth a lles
- Cydnabyddiaeth allanol am ein hymrwymiad i ddarparu amgylchedd dysgu a gwaith cynhwysol, iach a chynaliadwy



Blaenoriaeth Strategol 4: Byddwn yn cydweithio ar draws ein rhanbarth i ddarparu rhaglenni sgiliau a hyfforddiant ysbrydoledig ac effeithiol sy'n hyrwyddo dysgu gydol oes, yn cefnogi twf economaidd ac yn diwallu anghenion Rhanddeiliaid.

Bydd y coleg yn parhau i weithio mewn partneriaeth â busnesau, diwydiant a rhanddeiliaid eraill i feithrin a hyrwyddo lefelau uwch o fynediad, cyfranogiad, ymgysylltiad ac arloesedd, gan wneud cyfraniad ac effaith gadarnhaol ar ein cymuned leol a'r economi a chefnogi adferiad economaidd ar ôl Covid

Caiff ein llwyddiant ei fesur gan:

- Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y cyflogwyr sy'n ymgysylltu â'r coleg
- Cyflawni targedau blynyddol dysgwyr y cynllun prentisiaethau gwell
- Cyflawni targedau ariannu PLA a Rhan-Amser blynyddol
- Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y cyrsiau hyfforddi pwrpasol a ddarperir ar gyfer cyflogwyr
- Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn cyfleoedd profiad gwaith
- 15 o ddysgwyr yn cymryd rhan yng nghynllun Partneriaeth yr Academi Beirianeg Frenhinol bob blwyddyn



Ein **prif amcanion** i gefnogi'r flaenoriaeth

- Byddwn yn parhau i ddatblygu a chyflwyno ystod o raglenni sgiliau a hyfforddiant i ddiwallu anghenion cyflogwyr a'r gymuned leol, gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd sgiliau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys technoleg ddigidol, cynaliadwy a'r economi werdd a'r gofynion sgiliau sy'n deillio o'u cynlluniau adfer ar ôl Covid.
 - Byddwn yn ymestyn ac yn gwella'r ystod o gyfleoedd dysgu prentisiaeth, proffesiynol a dysgu seiliedig ar waith sydd ar gael i sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion busnes.
 - Byddwn yn olrhain data cyrchfannau cyflogaeth yn fwy effeithiol i lywio strategaethau cynllunio'r cwricwlwm ac ymgysylltu â chyflogwyr yn y dyfodol.
 - Byddwn yn defnyddio dull partneriaeth effeithiol i sicrhau mwy o werth ychwanegol a phrofiad gwell i ddysgwyr i bawb.
2. Byddwn yn ymgysylltu ac yn cysylltu â'r Grwpiau Partneriaeth Datblygu Economaidd ac Addysg Busnes lleol i sicrhau bod hyfforddiant yn cefnogi blaenoriaethau lleol, twf

Blaenoriaeth Strategol 5: Byddwn yn darparu strategaethau Ariannol, Adnoddau Dynol ac Ystadau effeithiol i wneud y mwyaf o gynaliadwyedd a gwydnwch, gan gefnogi buddsoddiad yn y coleg yn y dyfodol fel amgylchedd dysgu a gweithio o'r radd flaenaf i

Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella ein hamgylchedd ffisegol a rhithwir, seilwaith ac adnoddau i hwyluso arfer addysgeg arloesol, cefnogi datblygiad technolegau sy'n datblygu a darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n ddiwallu anghenion ein dysgwyr, ein staff a'n partneriaid.

Ein **prif amcanion** i gefnogi'r flaenoriaeth hon:

- Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn datblygu staff i gefnogi gweithlu sy'n perfformio'n dda ac sy'n arloesi'n ddigidol sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd a'n blaenoriaethau craidd.
- Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar incwm a chyfluoedd ariannu er mwyn tyfu ac arallgyfeirio ein hincwm a chreu gwargedau ar gyfer ail-fuddsoddi.
- Bydd cynllunio gweithlu effeithiol yn cael ei wneud yn unol â datblygu'r cwricwlwm ac anghenion lleol.
- Byddwn yn parhau i wella ac optimeiddio'r amgylchedd ac adnoddau dysgu corfforol, rhithwir ac ar-lein, gan sicrhau ein bod yn darparu amgylchedd dysgu a gweithio o'r radd flaenaf i bawb.
- Byddwn yn hybu gwelliant parhaus o brofiad dysgwyr a phrosesau busnes drwy integreiddio systemau coleg yn effeithiol tra'n manteisio i'r eithaf ar gyfluoedd i gydweithio â phartneriaid allweddol.
- Byddwn yn ennill gwobrau allweddol i gydnabod ein hymrwymiad i gynnal sefydliad amgylcheddol gynaliadwy, cefnogol a thechnolegol arloesol.
- Byddwn yn parhau i gynyddu a hyrwyddo gwerth economaidd a chyhoeddus ein coleg fel sefydliad angori er budd ein partneriaid a'n cymuned leol.
- Byddwn yn parhau i wneud cyfraniad cadarnhaol i ddatblygiad y Gymraeg ac yn hyrwyddo ein strategaeth ar gyfer dwyieithrwydd ar draws y coleg

Caiff ein llwyddiant ei fesur gan:

- Gwarged ariannol blyneddol - 3% o incwm anghyfyngedig
- Dyrannu o leiaf 0.2% o'r incwm rheolaidd i'r gyllideb datblygu staff
- Costau staff fel canran o'r incwm i barhau'n gyson â chyfartaledd y sector
- Cydnabyddiaeth allanol drwy gyflawni dyfarniadau a safonau corfforaethol, digidol ac amgylcheddol allweddol
- Llai o ddibyniaeth ar Gyllid Llywodraeth Cymru

